Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.05.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn.

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow.

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd – Caernarfon 10 Mai 2023

Yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, bydd Gwaith Gwynedd yn cynnal ffair swyddi yn Neuadd y Farchnad, Caernarfon ar 10 Mai 2023 (1:00pm-4:30pm). Mae eu ffeiriau diweddar ledled Gwynedd wedi bod yn llwyddiant mawr gyda busnesau yn cynnig cyfweliadau ar y diwrnod i nifer mawr o'r rhai wnaeth fynychu yn chwilio am swydd.

Os ydych yn recriwtio ac yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch ar: 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Cofiwch hysbysebu eich swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# TWRISTIAETH: Wythnos Twristiaeth Cymru 2023 yn dechrau 15 Mai 2023

Mae Wythnos Twristiaeth Cymru yn gyfle i fusnesau godi ymwybyddiaeth o’r sector ac arddangos ansawdd yr hyn sydd ar gael i dwristiaid o’r DU a thwristiaid rhyngwladol. Eleni y thema yw Atebion Cynaliadwy; Arferion a Menter – i ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.wta.org.uk/wales-tourism-week.html

Bydd Wythnos Twristiaeth Cymru hefyd yn parhau i gefnogi ymgyrch recriwtio Croeso Cymru – Crewyr Profiad – sy’n cefnogi’r sector twristiaeth a lletygarwch drwy dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa ac annog pobl i fanteisio ar swyddi gwag. Mae asedau ymgyrchu a phecyn cymorth i helpu busnesau i recriwtio staff ar gael ar:

https://bit.ly/3tZJ5mD

# CYLLID: Grant Coetiroedd Bach

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau derbyn ceisiadau am y Grant Coetiroedd Bach fydd yn creu 100 o Goetiroedd Bach rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2025 fel rhan o Raglen Coedwig Genedlaethol i Gymru. Bydd grantiau gwerth hyd at £40,000 fesul safle ar gael. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.llyw.cymru/coetiroedd-bach-canllawiau

# CYFLOGAETH: Adolygiad o’r Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder

Mae’r Rhestr o Alwedigaethau lle ceir Prinder (SOL) yn rhestr o swyddi gweithwyr medrus y mae Llywodraeth y DU yn ystyried

eu bod yn brin, swyddi lle mae'r rheolau ar gyfer fisas gwaith yn cael eu llacio, gan ei gwneud hi'n haws i weithwyr tramor sydd â'r sgiliau perthnasol ddod i'r DU. Ar hyn o bryd, gofynnir am farn rhanddeiliaid ar pa swyddi y credant y dylid eu hychwanegu at y SOL. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-restr-o-alwedigaethau-lle-ceir-prinder-cais-am-dystiolaeth-2023

# YNNI: Cefnogaeth Cynllun Gostyngiad Biliau Ynni ar gyfer Ynni a Diwydiannau Dwys Masnach (ETIIs)

O Ebrill 26 2023, mae cwsmeriaid annomestig sy'n gweithredu mewn diwydiannau ynni a masnach dwys (ETII) yn gallu gwneud cais am gymorth ychwanegol drwy borth newydd y Cynllun Disgownt Biliau Ynni – bydd gan sefydliadau cymwys 90 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r cynllun ar 26 Ebrill 2023 i wneud cais am y cymorth uwch a bydd gan sefydliadau sydd newydd gymhwyso 90 diwrnod i wneud cais o'r dyddiad pan fyddant yn dod yn gymwys. Ceir canllawiau ynghylch cymhwysedd a sut i wneud cais ar:

https://bit.ly/3nmXatB

# DIGWYDDIAD: RWE Renewables Venue Cymru 18 Mai 2023

Bydd RWE Renwables yn cynnal dau ddigwyddiad yn Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB ar 18 Mai 2023 i ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi leol.

- Brecwast busnes cyflenwyr Gogledd Cymru (8:00am-11:00am) – digwyddiad rhwydweithio i ddysgu mwy am gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy RWE yng ngogledd Cymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://bit.ly/3NyIdj1

- Pobl a sgiliau yn y gadwyn gyflenwi (12:30pm-4:30pm) – nod y gweithdy hwn yw deall yr heriau sgiliau a chyflogaeth y mae cwmnïau'r gadwyn gyflenwi yn eu hwynebu. Am fwy o wybodaeth, ewch i: https://bit.ly/3oU2sx6

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/cy
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru